Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Gwasanaeth Adnoddau Dynol / Y Tîm Iechyd Corfforaethol

## Cynghorydd Iechyd a Diogelwch (Band D)
## Y Swydd a'r Person

APS/022/07

**Cynghorydd Iechyd a Diogelwch (Band D)**

**Diben y Swydd:**

Dyma rôl y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch, a fydd yn gweithredu fel person cymwys y sefydliad, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (fel y'u diwygiwyd yn 2002):

- Rhoi cyngor i'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y gofynion iechyd a diogelwch sydd ynghlwm wrth waith y sefydliad,
- Cynorthwyo'r sefydliad i ymgymryd â'r mesurau gofynnol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a'r gwaharddiadau a orfodwyd arno gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, a
- Monitro i ba raddau y mae'r sefydliad yn cydymffurfio o ran gweithredu'r system rheoli iechyd a diogelwch.

**Y Prif Dasgau:**

- Cynorthwyo â'r gwaith o lunio a datblygu polisïau iechyd a diogelwch.
- Rhoi cyngor a gwneud argymhellion mewn perthynas ag asesu risg, deddfwriaeth newydd, nodi amcanion iechyd a diogelwch a newidiadau mewn polisïau a gweithdrefnau.
- Monitro asesiadau risg a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r mesurau rheoli risg cysylltiedig a weithredir yn unol â'r asesiad risg.
- Hyrwyddo a hybu ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch a hyfforddiant yn y maes.
- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.
- Cynorthwyo'r uwch reolwyr i lunio rhaglen iechyd a diogelwch Comisiwn y Cynulliad.
- Casglu a chyflwyno ystadegau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- Cynorthwyo â'r gwaith o ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau a chyflwyno adroddiadau statudol arnynt yn unol â gofynion deddfwriaeth.
- Cysylltu ag awdurdodau statudol ynghylch materion iechyd a diogelwch.

- Cynnal systemau gwybodaeth digonol, rhai cyfreithiol a thechnegol.

- Cynghori uwch reolwyr ynghylch materion iechyd a diogelwch perthnasol ac ynghylch unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu arfer gorau a allai effeithio ar waith Comisiwn y Cynulliad

- Sefydlu a chynnal systemau effeithiol a phriodol ar gyfer monitro ac archwilio perfformiad systemau rheoli iechyd a diogelwch a'r ffordd y cânt eu gweithredu a chyflwyno casgliadau'r archwiliadau hynny

- Cynhyrchu adroddiadau i uwch reolwyr am berfformiad Comisiwn y Cynulliad o ran iechyd a diogelwch

- Cynorthwyo'r rheini sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd a diogelwch fel Aseswyr Cyfarpar Sgrin Arddangos ac Aseswyr Risg o fewn meysydd gwasanaeth

- Gweinyddu'r cynllun profion llygaid

- Cynnal asesiadau ar gyfer staff sydd ag anableddau neu anghenion arbennig neu sy'n sâl.

- Darparu cyfarpar cymorth cyntaf a hyfforddiant cymorth cyntaf yn unol â'r canllawiau statudol

- Delio â hawliadau am iawndal oherwydd anafiadau personol neu ddifrod i eiddo personol, a'u gweinyddu

- Gweithio gyda'r Cynghorau Iechyd Galwedigaethol i drefnu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch

- Gweithio gyda chynghorwyr arbenigol i wneud yn siŵr bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn adlewyrchu arfer da

- Rhoi cyngor, canllawiau a gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad yn rhinwedd eu swydd fel cyflogwyr ynghylch materion iechyd a diogelwch

- Dyletswyddau eraill o fewn y Gwasanaeth Adnoddau Dynol sy'n gydnaws â graddfa a chymhwysedd y swydd.

**Cymwyseddau ac Ymddygiadau Penodol i'r Swydd:**

**Arweiniad**

- Hyrwyddo negeseuon corfforol ac ysgogi newidiadau .

**Gweithio gydag Eraill a'u Gwerthfawrogi:**

- Creu cysylltiadau ac ymgynghori â rhwydweithiau mewnol ac allanol.

**Dysgu  a gwella:**

- Gwneud penderfyniadau sy'n amserol, yn gyson ac wedi'u seilio ar dystiolaeth, er mwyn nodi'r materion allweddol.

**Sicrhau canlyniadau i'n cwsmeriaid:**

- Cynllunio ymlaen llaw er mwyn ddiffinio'r blaenoriaethau, yr hyn y mae'n bosibl ei gyflawni a'r cynlluniau wrth gefn cyn dechrau ar y gwaith.

- Defnyddio gwybodaeth am reoli'n effeithiol er mwyn nodi materion sy'n ymwneud â pherfformiad.

**Meini Prawf Penodol i'r Swydd:**

- Cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig ym maes iechyd a diogelwch (e.e. Diploma Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol neu gymhwyster cyfatebol) a phrofiad perthnasol o gymhwyso'r wybodaeth (gallwn gynnig cymorth i'r rheini sydd â chymhwyster rhannol neu sydd â chymhwyster sylfaenol yn y maes e.e. Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol neu gymhwyster cyfatebol, os ydynt yn fodlon ymrwymo i sicrhau cymhwyster uwch)

- Y gallu i ddrafftio dogfennau polisi, gweithrefnau ac adroddiadau sy'n glir ac sy'n addas ar gyfer eu cynulleidfa.

- Y gallu i ddefnyddio pecynnau Technoleg Gwybodaeth addas i gofnodi, cyflwyno adroddiadau a chyhoeddi data a gwaith yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.

**Dyddiad cau: 16 Tachwedd 2007**